Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

Ysgol Pant-Y-Rhedyn
Ffordd Penmaenmawr
Llanfairfechan
LL33 0AA

Rhif yr Ysgol: 6622115

Dyddiad yr Arolygiad: 03/03/08

gan

Gareth Wyn Roberts
17166

Dyddiad Cyhoeddi: 08/05/08

O dan rif contract Estyn: 1109007

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Pant-Y-Rhedyn fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Pant-Y-Rhedyn rhwng 03/03/08 a 05/03/08, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Gareth Wyn Roberts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad safonol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 3

Argymhellion 10

Safonau 11

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 11

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 15

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 15

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 18

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 20

Arweinyddiaeth a rheolaeth 22

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? 22

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 24

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 26

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu 28

Saesneg 28
Cymraeg ail iaith 29
Mathemateg 30
Technoleg gwybodaeth 31
Daearyddiaeth 32
Addysg grefyddol 33

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 34

Atodiadau 35

1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 35
2 Data a dangosyddion ysgol 36
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 37
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad 38
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 39

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Ysgol gynradd gymunedol o dan rheolaeth Awdurdod Unedig (AU) Conwy ar gyfer disgyblion B3 hyd at B6 (7-11 oed) yw Ysgol Pant y Rhedyn. Eleni, mae 132 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sydd 25 yn llai nag yn ystod yr arolygiad diwethaf yn 2002. Mae disgwyl i'r nifer sy'n mynychu'r ysgol barhau i leihau'n raddol dros y blynyddoedd i ddod.

2. Lleolir yr ysgol ar gyrion pentref glan y môr Llanfairfechan ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal o gwmpas. Trosglwydda mwyafrif helaeth y disgyblion i'r ysgol hon o ysgol fabanod y pentref. Disgrifir dalgylch yr ysgol fel un sydd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae gan 10.71% o'r disgyblion cyfredol hawl i bryd am ddim.

3. Mae gan yr ysgol saith athro neu athrawes llawn amser, gan gynnwys y pennaeth ac un athrawes ran amser sydd hefyd yn gweithredu fel Cyd-gysylltydd Anghenion Arbennig ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Penodwyd y pennaeth, a oedd cyn hynny yn ddirprwy bennaeth yn yr ysgol, i'w swydd ym Medi 2007.

4. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer yr holl ystod gallu. Yn gyfredol, mae dau ddisgybl (1.5%) ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) a 43 disgybl (33%) ar y gofrestr AAA. Mae canran y disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol yn uwch na'r cyfartaledd genedlaethol. Mae'r awdurdod addysg lleol yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer wyth disgybl (6%). Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf mae nifer y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n trosglwyddo i'r ysgol wedi cynyddu. Eleni mae hanner disgyblion B3 ar y gofrestr AAA.

5. Mae 97% o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid oes yr un disgybl yn derbyn cymorth yn Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r AU yn gofalu am un disgybl.

6. Dilyna'r ysgol bolisi iaith Sir Conwy. Mae hon yn ysgol "Cymraeg - Ail Iaith". Mae 12% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Saesneg yw iaith cartref 95% o'r disgyblion. Addysgir yr holl bynciau, heblaw 'r Gymraeg trwy gyfrwng y Saesneg ond mae'r ysgol yn anelu at ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith cyfathrebu ddydd i ddydd. Nod yr ysgol yw datblygu gallu pob disgybl i siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl a hyderus yn y ddwy iaith. Ar gyfer y Gymraeg a mathemateg addysgir y disgyblion yn ôl eu gallu. Mae'r ysgol yn y broses, a ddechreuodd ym Medi 2007, o symud i fod yn ysgol lle'r addysgir 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

7. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol ym mis Chwefror 2002. Y tro hwn, mae'n derbyn arolygiad safonol sy'n golygu bod yr arolygwyr yn adrodd ar safonau mewn chwe phwnc.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8. Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2007-2008 yw:

- ennill achrediad sgiliau sylfaenol am yr eildro (a ddigwyddodd ym mis Tachwedd 2007);
- datblygu rôl reolaethol y cydlynwyr pwnc a datblygu prosesau hunan arfarnu ymhellach;
- datblygu rôl is-bwyllgorau'r corff llywodraethol;
- dechrau'r cynllun 'ysgolion iach';
- parhau gyda phrosiect PESS (Physical Education and School Sports)
- datblygu ymhellach y cysylltiadau gyda chyngor y dref a'r gymuned leol;
- ychwanegu at adnoddau'r ysgol ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), y Gymraeg ac addysg gorfforol;
- sicrhau gwelliant i rai o adeiladau'r ysgol.

9. Targedau meintiol yr ysgol ar gyfer 2008 yw'r canlynol:

Cyfnod Allweddol 2

Pwnc	Canran disgyblion B6 yn cyrraedd lefel 4 neu well y Cwricwlwm Cenedlaethol yn yr asesiadau statudol
Saesneg	85%
Mathemateg	85%
Gwyddoniaeth	85%
Dangosydd pynciau craidd (sef canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 neu well y cwricwlwm cenedlaethol yn y tri phwnc uchod)	85%

Crynodeb

10. Mae hon yn ysgol deuluol ag iddi nifer o nodweddion da. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y safonau cyflawniad da, ansawdd y gofal a'r cyfarwyddyd y mae'r ysgol yn ei ddarparu ar gyfer ei disgyblion. Mae hon yn ysgol sy'n datblygu ymhellach o dan arweiniad newydd. Mae nifer o flaengareddau sydd eto heb ddwyn ffrwyth.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	2
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	2
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	3
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

11. Mae'r graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu i'r saith cwestiwn allweddol uchod yr un fath â'r graddau a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Bu i'r tîm arolygu ddyfarnu gradd yn is i gwestiwn allweddol 6.

Safonau cyflawniad a chyrhaeddiad

12. Dengys y tabl isod grynodeb o'r canrannau safonau fesul gradd a gyflawnwyd yn y gwersi a arsylwyd ar draws y chwe phwnc a arolygwyd yn ystod yr arolygiad.

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
5%	79%	16%	0%	0%

13. Golyga hyn fod yr ysgol yn cyrraedd y targed a osodir ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru erbyn 2010 yn y ddogfen "Gweledigaeth ar Waith", Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef y dylai ansawdd y dysgu a aseswyd gan Estyn fod yn radd 3 neu'n well mewn 98% o'r dosbarthiadau.

14. Gan mai arolygiad safonol a gafodd yr ysgol, arolygodd y tîm safonau cyflawniad mewn chwe phwnc a ddewiswyd gan Estyn. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r safonau.

Pynciau a arolygwyd	**Cyfnod allweddol 2 yn unig gan mai ysgol ar gyfer disgyblion 7-11 oed yw hon**
Saesneg	2
Cymraeg ail iaith	3
Mathemateg	2
Technoleg gwybodaeth	2
Daearyddiaeth	2
Addysg grefyddol	2

15. Er nad yw diffiniadau'r graddfeydd a'r dull o raddio yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd yn ystod arolygiad 2002, mae modd dweud bod safonau wedi gwella mewn daearyddiaeth ac wedi gwella'n arwyddocaol mewn technoleg gwybodaeth. Aseswyd y Gymraeg yn erbyn meini prawf gwahanol yn 2002, sef y rhai ar gyfer y Gymraeg yn famiaith. Y tro hwn, barnwyd y safonau yn erbyn meini prawf Cymraeg Ail Iaith ac felly nid oes modd gwneud cymhariaeth gyfatebol. Mae Saesneg, mathemateg ac addysg grefyddol wedi aros yr un fath.

16. Edrychodd y tîm arolygu ar safonau yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach, yn ogystal. Gwnaed hyn yn ystod y gwersi lle nodwyd safonau yn y pynciau a arolygwyd yn benodol, ond hefyd mewn gwersi eraill ar draws y cwricwlwm.

17. O ystyried y medrau allweddol iaith ar draws y cwricwlwm, mae nodweddion da a dim diffygion pwysig mewn safonau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae hyn hefyd yn wir am rifedd, TGCh, datrys problemau a gweithio gydag eraill. Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion mewn cymhwysedd dwyieithog (pan ystyrir cyd-destun yr ysgol) a hefyd yng ngallu'r disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

18. Mae safonau siarad, darllen ac ysgrifennu wedi aros yn bur debyg ers yr arolygiad blaenorol. Mae safonau gwrando wedi gwella a safonau TGCh ar draws y cwricwlwm wedi gwella'n arwyddocaol.

19. Wrth gymharu canlyniadau asesiadau Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol yn erbyn ysgolion drwy Gymru sydd yn yr un grŵp o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i bryd am ddim, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion.

20. Yn 2007, roedd canlyniadau asesiadau Saesneg yn arwyddocaol well na rhai 2005 a 2006. Bu gwelliant hefyd yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd yn 2007. Yn 2007, roedd asesiadau mathemateg hefyd yn gosod yr ysgol uwchlaw'r canolrif, fel yn 2006. Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn gyson ar draws y tair blynedd ac wedi gosod yr ysgol yn y drydedd chwartel o ysgolion tebyg, sef islaw'r canolrif bob blwyddyn.

21. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau newydd, beth bynnag fo eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol.

22. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Yn y dosbarth, mae bechgyn a merched yn cyflawni cystal â'i gilydd. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol daw'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol.

23. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u lefelau cyflawniad yn y pynciau. Maent yn aml yn derbyn targedau i wella eu gwaith, er bod y rhain yn amrywiol eu natur a'u cysondeb oddi mewn ac ar draws pynciau. Mae'r disgyblion hefyd yn dechrau gosod targedau personol eu hunain, er nad yw'r arfer hwn yn hollol gyson. Mae eu cynnydd yn cymharu'n dda gyda'u potensial yn y targedau a osodir ar eu cyfer.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

24. Mae'r tabl isod yn dangos dosraniad y graddau a ddyfarnwyd ar gyfer ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd trwy'r ysgol. Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys gwersi yn y pynciau yr arolygwyd eu safonau ynddynt yn ogystal â rhai gwersi mewn pynciau eraill.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Ysgol gyfan	15%	77%	8%	0%	0%

25. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r targed a osodwyd ar gyfer addysgu yn ysgolion cynradd yng Nghymru erbyn 2010 yn y ddogfen "Gweledigaeth ar Waith", Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef y dylai ansawdd yr addysgu a aseswyd gan Estyn fod yn radd 2 neu'n well mewn 80% o ddosbarthiadau.

26. Mae'r tabl hefyd yn dangos bod yr ystadegau'n cymharu'n ffafriol gyda'r rhai yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar ysgolion cynradd ar gyfer 2005 - 2006. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu'n dda (gradd 1 a 2) mewn 79% o wersi ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (gradd 1) mewn 17% o wersi.

27. At ei gilydd mae'r athrawon yn cynnig cyfle cyfartal i ddisgyblion o bob cefndir, oed a gallu, er bod lefel yr her mewn rhai dosbarthiadau yn rhy uchel ar adegau ar gyfer y disgyblion llai galluog. Serch hynny, mae darparu ar gyfer disgyblion o alluoedd gwahanol drwy gynhaliaeth a thrwy wahaniaethu tasgau yn aml yn gryfder.

28. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys y canlynol:

- disgwyliadau uchel iawn o ran safonau gwaith ac ymddygiad sy'n cymell a herio disgyblion unigol yn ôl oedran, gallu a dealltwriaeth;
- holi treiddgar ac i bwrpas;
- arbenigedd a gwybodaeth bynciol drylwyr iawn yr athrawon;
- perthynas waith hynod o adeiladol gyda'r disgyblion a phob unigolyn yn ddiwahân yn cael ei barchu.

29. Yn ogystal, mae llawer o nodweddion da sy'n cynnwys:

- cynllunio manwl a pharatoad da ar gyfer gwersi unigol a chyfresi o wersi;
- amcanion eglur y gwersi'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion a'u defnyddio ganddynt;
- defnydd effeithiol o waith pâr a grŵp;
- rheolaeth ddosbarth gadarn ac adeiladol.

30. Mewn ychydig o wersi mae rhai o'r diffygion canlynol:

- diffyg cynhaliaeth ddigonol ar gyfer y disgyblion gwanaf ;
- asesu disgyblion yn y dosbarth heb ddefnyddio meini prawf pynciol bob amser;
- cyflwyniadau dechreuol rhy hir;
- methu cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn annibynnol.

31. Mae cyfundrefn asesu'r ysgol yn dangos nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r asesiadau tymhorol a blynyddol yn gyffredinol deg a chywir. Caiff gwaith dydd i ddydd disgyblion ei farcio'n gyson trwy'r ysgol ond nid yw'r sylwadau a gynigir yn tynnu sylw'n gyson at nodweddion da yn y gwaith, nac yn cynnwys sylwadau pwnc benodol sy'n cynnig arweiniad i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith.

32. Mae'r athrawon yn gosod targedau ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Serch hynny, nid yw'r targedau a osodir bob amser yn ddigon pwnc benodol. Megis dechrau mae'r broses o greu portffolios o waith disgyblion wedi ei lefelu a'i safoni ar draws y pynciau.

33. Mae'r addysg a gyflwynir yn bodloni anghenion yr ystod o ddisgyblion sydd yn yr ysgol yn dda. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig cydbwysedd, ehangder, hyblygrwydd, cydlynedd a dilyniant ym mhrofiadau'r disgyblion. Datblyga'r ysgol fedrau sylfaenol ac allweddol y disgyblion mewn iaith, rhif a TGCh, yn dda drwy'r ysgol.

34. Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae ystyriaethau moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn treiddio drwy'r cwricwlwm ac yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu yn y dosbarth. Mae'r ysgol yn darparu addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd da, naill ai fel rhan naturiol o addysgu pwnc neu mewn sesiynau penodol, megis 'amser cylch'.

35. Mae perthynas yr ysgol gyda phartneriaid allanol yn y gymuned yn dda a chyfranna'r rhain yn dda at ddatblygiad cymunedol ac amgylcheddol. Mae'r cyswllt gyda diwydiant a byd gwaith yn dangos nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r rhain wedi cryfhau'r ddarpariaeth.

36. Er bod cysylltiadau bugeiliol da gyda'r ysgol fabanod sy'n bwydo'r ysgol ynghyd â rhai cysylltiadau cwricwlaidd yn y pynciau craidd, nid oes cysylltiadau cwricwlaidd digon manwl bob amser i sicrhau dilyniant cwricwlaidd llawn, er enghraifft yn y Gymraeg Ail Iaith.

37. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yng ngallu'r ysgol i hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion. Dechrau dwyn ffrwyth mae strategaethau megis 'helpwr y dydd' a dechrau hefyd mae'r trefniadau ar gyfer cyflawni'r nod sydd gan yr ysgol i gyflwyno 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2010.

38. Mae'r cwricwlwm yn rhoi sylw da i faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac osgoi ystrydebu. Mae gan y disgyblion hefyd wybodaeth dda am faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang.

39. Drwy brosiectau megis 'ysgolion iach', gwersi addysg gorfforol, chwaraeon allanol ac arbenigedd a chynllunio bwriadus staff, rhoddir cyfleoedd da i'r disgyblion fagu ymwybyddiaeth gynyddol o fwyta'n iach ac effaith ymarfer ar y corff.

40. Mae'r ysgol yn gymuned hapus ag iddi awyrgylch ddymunol. Mabwysiadwyd ystod o bolisïau perthnasol i sicrhau bod trefniadau gofal yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae staff yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ofalgar iawn o'u disgyblion; mae'r disgyblion hwythau yn troi atynt yn hollol naturiol am gymorth.

41. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Côd Ymarfer.

42. Rhoddir sylw i faterion cydraddoldeb hiliol a'r angen i osgoi stereoteipio yng nghyd-destun pwysigrwydd parch a goddefgarwch.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

43. Mae gan y pennaeth, sydd yn ei swydd ers llai na dau dymor, weledigaeth glir am y ffordd y mae am i'w ysgol ddatblygu. Mae'n cynnig arweiniad pendant i'r staff a'r llywodraethwyr ac yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau'r gorau i'r disgyblion. Gweithiodd yn egnïol ers ei benodiad i ddarparu nifer sylweddol o bolisïau a chanllawiau sy'n rhoi cyfeiriad pendant i waith a dyheadau'r ysgol ac i greu ethos ofalgar a chynhyrchiol.

44. Cefnogir ef yn effeithiol iawn gan ddirprwy sydd hefyd yn newydd i'r swydd ac i'r ysgol. Mae'r dirprwy yn cynnig arweiniad cadarn ar faterion cwricwlaidd yn ogystal â chynnig model o addysgu o ansawdd uchel.

45. Rhyngddynt mae'r pennaeth a'r dirprwy wedi llwyddo i roi ar waith nifer sylweddol o welliannau. Mae rhai eisoes yn dwyn ffrwyth o ran cysoni disgwyliadau a chodi safonau. Maent hefyd, ar y cyd, yn datblygu sgiliau proffesiynol y staff yn effeithiol gan lwyddo i greu ymdeimlad o dîm unedig a llwyddiannus.

46. Dros y misoedd diwethaf y mae rôl y llywodraethwyr wedi datblygu'n sylweddol o dan arweiniad y tîm rheoli newydd. Mae eu dealltwriaeth o waith a gweithdrefnau yr ysgol bellach yn amlwg ac maent yn ymfalchïo yn y cyfraniad pwysig a gwerthfawr sydd ganddynt i'w wneud i ddatblygiad strategol yr ysgol. Maent wedi dechrau ymgymryd â'r gwaith o fonitro ansawdd y ddarpariaeth.

47. Mae'r corff llywodraethol yn bodloni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a osodir arno. Y mae nifer o'r aelodau yn cyfrannu hefyd i waith yr ysgol yn ôl eu harbenigeddau.

48. Mae diwylliant o hunan arfarnu wedi ei sefydlu'n gadarn gan y tîm rheoli newydd. Nid yw'r hunan arfarnu hwn ym mhob achos, fodd bynnag, wedi ei seilio ddigonol ar ystyriaeth lawn a chadarn o'r holl dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys data cyfredol.

49. Mae'r ysgol wedi cyflwyno gwahanol strategaethau, o fewn y drefn hunan arfarnu, sy'n cynnwys edrych ar waith disgyblion, trafod gydag ymgynghorwyr a thrafodaethau ymhlith staff. Mewn rhai meysydd mae hyn wedi arwain at gynnydd amlwg, ond yn gyffredinol nid yw'r monitro wedi canolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd y ddarpariaeth nac ar yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella safonau.

50. Mae lefel staffio digonol o fewn yr ysgol ac mae gan yr athrawon gymwysterau addas. Defnyddia'r ysgol ei staff atodol yn dda a chyflawna'r staff atodol hwythau hefyd eu dyletswyddau'n effeithiol.

51. Mae gan yr ysgol adnoddau dysgu digonol ar gyfer pob pwnc; mae pryniant adnoddau yn seiliedig ar ofynion y cynllun datblygu ysgol. Mae'r holl offer yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r cwricwlwm ac at wella ansawdd yr addysgu a dysgu.

52. Er ei fod yn hen, mae'r adeilad yn eang ac mewn cyflwr da heblaw am y toiledau sydd islaw disgwyliadau cyfredol.

53. Mae'r ysgol yn defnyddio ei holl adnoddau dynol, ei hadeiladau a'i defnyddiau dysgu yn effeithiol ac effeithlon. Mae'r staff addysgu a chefnogi yn cael eu lleoli, eu rheoli a'u datblygu'n effeithiol.

54. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian trwy:

- gefnogi'r disgyblion i gyrraedd safonau da;
- ddarparu gofal a chefnogaeth dda iawn i'r disgyblion;
- benderfyniadau ariannol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau addysgol;
- gynnig cwricwlwm o ansawdd da ar gyfer y disgyblion.

55. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn y cynnydd ers yr arolygiad diwethaf. Mae cynnydd amlwg mewn rhai agweddau, megis codi safonau mewn daearyddiaeth a thechnoleg gwybodaeth, ond deil materion eraill i fod angen sylw pellach, megis asesu a hunan arfarnu.

Argymhellion

Mae angen i'r ysgol gynnal ac ymestyn y safonau da a sicrhau safonau rhagorol trwy:

A1. gynnal ac adeiladu ar y safonau pynciol trwy ddileu unrhyw ddiffygion a nodir,* codi safonau yn Gymraeg ail-iaith a datblygu ymhellach y strategaethau a fabwysiadwyd i hyrwyddo dwyieithrwydd;

A2. ledaenu arferion addysgu rhagorol a da iawn ar draws yr holl bynciau a dosbarthiadau;.*

A3. roi ar waith yn llawn gynllun asesu newydd yr ysgol;*

A4. barhau i ddatblygu dilyniant cwricwlaidd rhyngddi ag Ysgol y Babanod;

A5. ddatblygu ymhellach y drefn hunan arfarnu. *

*Mae'r ysgol wedi nodi'r materion hyn naill ai yn ei hunan arfarniad neu yn ei chynllun datblygu ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

56. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn.

Llwyddiant y disgyblion o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig.

57. Dengys y tabl isod grynodeb o'r canrannau safonau fesul gradd a gyflawnwyd i'r gwersi a arsylwyd ar draws y pynciau yn ystod yr arolygiad.

Yr ysgol gyfan	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
	5%	79%	16%	0%	0%

58. Golyga hyn fod yr ysgol yn cyrraedd y targed a osodir ar ysgolion cynradd yng Nghymru erbyn 2010 yn y ddogfen "Gweledigaeth ar Waith", Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef y dylai ansawdd y dysgu a aseswyd gan Estyn fod yn radd 3 neu'n well mewn 98% o'r dosbarthiadau.

59. Gan mai arolygiad safonol a gafodd yr ysgol, arolygodd y tîm safonau mewn chwe phwnc, sef Saesneg, Cymraeg Ail Iaith, mathemateg, technoleg gwybodaeth, daearyddiaeth ac addysg grefyddol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r safonau cyflawniad yn y pynciau hyn.

Safonau yng Nghyfnod Allweddol 2.

Pwnc	Gradd
Saesneg	2
Cymraeg Ail Iaith	3
Mathemateg	2
Technoleg gwybodaeth	2
Daearyddiaeth	2
Addysg grefyddol	2

60. Er nad yw diffiniadau'r graddfeydd a'r dull o raddio yr un fath a'r rhai a ddefnyddiwyd yn ystod arolygiad 2002, mae modd dweud bod safonau wedi gwella'n arwyddocaol mewn technoleg gwybodaeth. Aseswyd y Gymraeg yn erbyn meini prawf gwahanol yn 2002, sef y rhai ar gyfer y Gymraeg yn famiaith. Y tro hwn barnwyd y safonau yn erbyn meini prawf y Gymraeg Ail Iaith ac felly nid oes modd gwneud cymhariaeth gyfatebol. Mae safonau daearyddiaeth wedi gwella a safonau'r tri phwnc arall wedi aros yr un fath.

61. Edrychodd y tîm arolygu ar safonau yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach, yn ogystal. Gwnaed hyn yn ystod y gwersi lle nodwyd safonau yn y pynciau a arolygwyd yn benodol, yn ogystal ag mewn gwersi eraill ar draws y cwricwlwm.

62. O ystyried y medrau allweddol iaith ar draws y cwricwlwm, mae nodweddion da a dim diffygion pwysig mewn safonau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae hyn hefyd yn wir am rifedd, TGCh, datrys problemau a gweithio gydag eraill. Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion mewn cymhwysedd dwyieithog (pan ystyrir cyd-destun yr ysgol) a hefyd yng ngallu'r disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

63. Mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar eu hathrawon; ymatebant yn dda ar lafar. Mae ansawdd darllen ar goedd, darllen er pleser a darllen ymchwiliol yn dda.

64. Mae safonau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn mesur yn gywir a gofalus.

65. Mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh yn effeithiol i ymchwilio ac i gywain a dethol gwybodaeth a gwnânt ddefnydd da o galedwedd digidol i'r perwyl.

66. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n dda naill ai fel pâr neu fel grŵp. Mae gallu'r disgyblion i ddatrys amrywiaeth dda o broblemau ar draws ystod eang o bynciau yn dda. Drwy ymarfer, gwella a mireinio eu gwaith mae'r disgyblion yn dechrau gwella eu perfformiad eu hunain.

67. Mae safonau siarad, darllen ac ysgrifennu wedi aros yn debyg ers yr arolygiad blaenorol; mae safonau gwrando wedi gwella, a safonau TGCh ar draws y cwricwlwm wedi gwella'n arwyddocaol.

Ansawdd canlyniadau asesiadau statudol

68. Wrth gymharu canlyniadau asesiadau Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol yn erbyn ysgolion drwy Gymru sydd yn yr un grŵp o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion.

69. Yn 2007 roedd canlyniadau asesiadau Saesneg yn arwyddocaol well na rhai 2005 a 2006 ac yn gosod yr ysgol yn y chwartel o ysgolion uwchben y canolrif yn hytrach nag islaw'r canolrif neu yn y chwartel isaf fel yn flaenorol.

70. Bu gwelliant hefyd yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd yn 2007. Roedd asesiadau'r ysgol yn eu gosod yn y chwartel o ysgolion uwchlaw'r canolrif, yn hytrach nag islaw'r canolrif fel yn 2006 a 2007.

71. Yn 2007, roedd asesiadau mathemateg hefyd yn gosod yr ysgol ymhlith yr ysgolion uwchlaw'r canolrif, fel yn 2006. Er hynny, roedd hyn yn ddirywiad ers 2005 lle roedd asesiadau mathemateg yn gosod yr ysgol yn y chwartel uchaf.

72. Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn gyson ar draws y dair blynedd ac wedi gosod yr ysgol bob blwyddyn yn y drydedd chwartel o ysgolion tebyg.

73. Nid oedd safonau cyrhaeddiad blaenorol yr ysgol yn 2005 a 2006 gystal â safonau cyflawniad disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sy'n gyfredol yn yr ysgol. Serch hynny, mae cyfatebiaeth eithaf rhwng safonau cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2 yn 2007 a safonau cyflawniad yn y dosbarthiadau sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Ni wnaed cymhariaeth o asesiadau athrawon yn erbyn meincnodau 'pryd am ddim' yn adroddiad yr arolygiad blaenorol ac anodd felly yw gwneud cymhariaeth ddilys.

Y cynnydd a wna'r disgyblion wrth ddysgu

74. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau newydd, beth bynnag yw eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol.

75. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Yn y dosbarth mae bechgyn a merched yn cyflawni cystal â'i gilydd.

76. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u lefelau cyflawniad yn y pynciau. Maent yn aml yn derbyn targedau i wella eu gwaith er bod y rhain yn amrywiol eu natur a'u cysondeb oddi mewn ac ar draws pynciau. Mae'r disgyblion hefyd yn dechrau gosod targedau personol iddynt eu hunain, er nad yw'r arfer hwn yn hollol gyson. Mae eu cynnydd yn cymharu'n dda gyda'u potensial a'r targedau a osodir ar eu cyfer.

77. Gwna'r disgyblion gynnydd da tuag at gyflawni eu potensial a symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg.

Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r disgyblion

78. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol wrth weithio. Maent yn ymddiddori yn eu gwaith ac yn canolbwyntio'n dda.

79. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda yn y dosbarth ac mae hyn yn creu amgylchedd dysgu da iawn. Maent yn dangos parch at ei gilydd, eu hathrawon ac ymwelwyr.

80. Mae lefel presenoldeb yr ysgol, sef 94%, yn ystod y tymor cyn yr arolygiad ychydig bach yn is na'r targed o 95% y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei osod ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i gynnal ac i godi lefel presenoldeb y disgyblion. Daw disgyblion yn brydlon i'r ysgol ac mae nifer yr absenoldebau anawdurdodedig yn isel.

81. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn dod yn ddysgwyr annibynnol.

82. Mae safonau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda.

83. Mae gan y plant a'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cyfle cyfartal a pharch at bobl o hil, crefydd neu gefndir ieithyddol gwahanol. Datblygant fedrau defnyddiol ar gyfer byw yn eu cymdeithas ac fel rhagbaratoad ar gyfer byd gwaith.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

84. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn.

85. Mae'r tabl isod yn dangos dosraniad y graddau a ddyfarnwyd ar gyfer ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd trwy'r ysgol. Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys gwersi yn y pynciau a arolygwyd yn benodol yn ogystal â rhai gwersi mewn pynciau eraill .

Cyfnod	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Ysgol gyfan	15%	77%	8%	0%	0%

86. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r targed a osodwyd ar gyfer addysgu ar ysgolion cynradd yng Nghymru erbyn 2010 yn y ddogfen "Gweledigaeth ar Waith", Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef y dylai ansawdd yr addysgu a aseswyd gan Estyn fod yn radd 2 neu'n well mewn 80% o ddosbarthiadau.

87. Mae'r tabl hefyd yn dangos bod yr ystadegau'n cymharu'n ffafriol gyda'r rhai yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar ysgolion cynradd ar gyfer 2005 i 2006. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu'n dda (gradd 1 a 2) mewn 79% o wersi ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (gradd 1) mewn 17% o wersi.

88. At ei gilydd, mae'r athrawon yn cynnig cyfle cyfartal i ddisgyblion o bob cefndir, oed a gallu, er bod lefel yr her mewn rhai dosbarthiadau yn rhy uchel ar adegau ar gyfer y disgyblion llai galluog. Serch hynny, mae gwahaniaethu drwy gynhaliaeth a thrwy wahaniaethu tasgau yn aml yn gryfder.

89. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod da o adnoddau, gan gynnwys adnoddau TGCh i ennyn diddordeb y disgyblion ac i godi eu cymhelliad.

90. Mae'r holl athrawon yn dechrau hybu dwyieithrwydd disgyblion naill ai mewn gweithgareddau dosbarth ar ddechrau sesiynau'r bore a'r prynhawn, neu yn llai rheolaidd, yn ystod gwersi.

91. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys y canlynol:

- disgwyliadau uchel iawn o ran safonau gwaith ac ymddygiad sy'n cymell a herio disgyblion unigol yn ôl oedran, gallu a dealltwriaeth;
- holi treiddgar ac i bwrpas;
- arbenigedd a gwybodaeth bynciol drylwyr iawn yr athrawon;
- perthynas waith hynod o adeiladol gyda'r disgyblion a'r plant a phob unigolyn yn ddiwahân yn cael ei barchu.

92. Yn ogystal, mae llawer o nodweddion da sy'n cynnwys:

- cynllunio manwl a pharatoad da ar gyfer gwersi unigol a chyfresi o wersi;
- amcanion eglur y gwersi'n cael eu rhannu gyda'r plant a'r disgyblion a'u defnyddio ganddynt;
- defnydd effeithiol o waith pâr a grŵp;
- rheolaeth ddosbarth gadarn ac adeiladol;
- anogaeth a chanmoliaeth addas a chyson i unigolion;
- datrys problemau yn agwedd naturiol o addysgu yn y mwyafrif llethol o wersi.

93. Mewn ychydig o wersi mae rhai o'r diffygion canlynol:

- diffyg cynhaliaeth ddigonol ar gyfer y disgyblion gwanaf;
- asesu disgyblion yn y dosbarth heb ddefnyddio meini prawf pynciol bob amser;
- cyflwyniadau dechreuol rhy hir;
- methu cynnig digon o annibyniaeth i'r disgyblion.

94. Mae cyfundrefn asesu'r ysgol yn dangos nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion

95. Caiff gwaith y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol ei asesu yn ôl y gofynion.

96. Defnyddia'r ysgol ystod o brofion safonol i asesu cynnydd disgyblion yn flynyddol mewn meysydd penodol ac ar eu mynediad i'r ysgol. Yn ogystal, cynhelir asesiadau tymhorol yn y pynciau craidd ac asesiadau blynyddol yn y pynciau sylfaen, sy'n rhoi syniad da o safonau'r disgyblion. Mae'r asesiadau hyn yn deg ac yn gywir, er bod yr ysgol yn asesu agweddau o fathemateg yn eithaf llym.

97. Caiff gwaith dydd i ddydd disgyblion ei farcio'n gyson trwy'r ysgol ac mae'r athrawon yn gosod targedau ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Nid yw'r sylwadau na'r targedau a gynigir yn tynnu sylw'n ddigon cyson at nodweddion da yn y gwaith nac yn cynnwys sylwadau pwnc penodol sy'n cynnig arweiniad i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Ni sicrheir yn gyson bod gan y disgyblion berchnogaeth ddigonol ar dargedau fel arf i wella cyflawniad.

98. Mae'r ysgol wedi cadw enghreifftiau o waith disgyblion sy'n dangos yr ystod profiadau a dderbyniant; maent hefyd yn gofnod o'r gwaith a wnaed. Mae'r rhain yn offerynnau defnyddiol ar gyfer sicrhau dilyniant a pharhad yng ngwaith y disgyblion. Megis dechrau, fodd bynnag, mae'r broses o greu portffolios o waith disgyblion wedi eu lefelu a'u safoni ar draws y pynciau.

99. Megis dechrau, hefyd, mae trefniadau ar gyfer sicrhau asesiadau safonol yng Nghyfnod Allweddol 2 ar y cyd gydag athrawon o ysgolion lleol eraill.

100. Mae'r adroddiadau blynyddol a gyflwynir yn Nhymor yr Haf yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol. Maent yn rhoi darlun clir o'r hyn y gall disgybl ei gyflawni a chaiff gwaith ei lefelu ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae'r adroddiadau'n ymarferol a defnyddiol. Mae'r sylwadau ar y pynciau craidd ac ar Gymraeg Ail Iaith yn cynnwys targed pynciol priodol. Mae'r rhieni'n canmol y wybodaeth a dderbyniant yn yr adroddiadau a chan yr athrawon yn ystod y nosweithiau agored a gynhelir ddwywaith y flwyddyn lle trafodir cynnydd eu plant.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

101. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn.

102. Mae'r addysg yn bodloni anghenion yr ystod o blant a disgyblion sydd yn yr ysgol yn dda. Mae ansawdd y cynllunio cwricwlaidd yn dda ac yn cwrdd â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol a gofynion y CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol) lleol ar gyfer addysg grefyddol. Mae ansawdd y cynlluniau gwaith tymor hir, tymor canolig a thymor byr, yn dda.

103. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig cydbwysedd, ehangder, hyblygrwydd, cydlynedd a dilyniant ym mhrofiadau'r disgyblion. Mae'r dosraniad amser ar gyfer addysgu'r pynciau a'r agweddau eraill yn addas. Cydymffurfir â'r disgwyliadau parthed nifer yr oriau o addysg y dylai'r disgyblion eu derbyn yn wythnosol.

104. Datblyga'r ysgol fedrau sylfaenol ac allweddol y disgyblion mewn iaith, rhif a TGCh yn effeithiol drwy'r ysgol. Cyfeirir at sgiliau allweddol ym mhob pwnc. Dyfarnwyd y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol i'r ysgol am yr ail dro ym mis Tachwedd 2007 sy'n cadarnhau effeithiolrwydd trefn yr ysgol ar gyfer datblygu'r medrau sylfaenol mewn cyfathrebu a rhifedd.

105. Mae'r profiadau dysgu'n ehangu a chyfoethogi profiadau'r disgyblion drwy amrywiaeth dda ac eang o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau ysgol ac oddi ar y safle. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys gweithgareddau i hybu lles ac iechyd disgyblion, ymweliadau amrywiol yn ogystal â chwaraeon a chlybiau.

106. Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae ystyriaethau moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn treiddio drwy'r cwricwlwm ac yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu yn y dosbarth. Gwna'r sesiynau addoli ar y cyd gyfraniad buddiol i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion ac, ynghyd â'r sesiynau 'amser cylch', cyfrannant yn dda iawn i'w datblygiad moesol. Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth dda i elusennau.

107. Mae rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol. Drwy'r holiaduron a chyfarfod cyn-arolwg y rhieni, mynegodd y rhieni lefel uchel o foddhad yn eu perthynas â'r ysgol ac yn ansawdd yr addysg a'r gofal a ddarperir gan yr ysgol. Croesewir rhieni ac ymwelwyr i mewn i'r ysgol ac mae nifer o'r ymwelwyr yn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy rannu eu harbenigedd a'u profiadau gyda'r disgyblion.

108. Mae'r ysgol yn darparu addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd dda, naill ai fel rhan naturiol o addysgu pwnc neu mewn sesiynau penodol, megis 'amser cylch'.

109. Mae perthynas yr ysgol gyda phartneriaid allanol yn y gymuned yn effeithiol a chyfranna'r rhain yn dda at ddatblygiad cymunedol ac amgylcheddol. Mae'r cyswllt gyda diwydiant a byd gwaith yn dangos nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion ac mae'r rhain wedi cryfhau'r ddarpariaeth mewn gwyddoniaeth a TGCh. Megis dechrau mae hybu menter yn yr ysgol.

110. Er bod cysylltiadau bugeiliol da gyda'r ysgol fabanod sy'n bwydo'r ysgol a rhai cysylltiadau cwricwlaidd yn y pynciau craidd, nid yw'r cysylltiadau hyn yn ddigon manwl bob amser i sicrhau dilyniant cwricwlaidd llawn, er enghraifft yn y Gymraeg, Ail Iaith. Sefydlwyd cysylltiadau bugeiliol da ynghyd â nifer o gysylltiadau cwricwlaidd buddiol gyda'r ysgol uwchradd leol yn yr un sir.

111. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yng ngallu'r ysgol i hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion. Megis dechrau mae trefniadau megis 'helpwr y dydd' a dechrau hefyd mae'r trefniadau ar gyfer cyflawni'r nod sydd gan yr ysgol o gyflwyno 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2010.

112. Ar y llaw arall, rhoddir lle canolog i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

113. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn cael profiadau gwerthfawr drwy gynrychioli barn y disgyblion. Hyd yn hyn, nid yw'r elfen menter wedi cael sylw digonol o fewn y cwricwlwm.

114. Mae'r cwricwlwm yn rhoi sylw da i faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac osgoi ystrydebu. Mae gan y disgyblion hefyd wybodaeth dda am faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang a ddarperir yn bennaf drwy daearyddiaeth, addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol.

115. Drwy brosiectau, megis 'ysgolion iach', gwersi addysg gorfforol, chwaraeon allanol ac arbenigedd a chynllunio bwriadus staff, rhoddir cyfleoedd da i'r disgyblion fagu ymwybyddiaeth gynyddol o fwyta'n iach ac effaith ymarfer ar y corff. Yn ogystal, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy a'r angen i ofalu am yr amgylchedd.

116. Mae'r ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy o ddydd-i-ddydd.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

117. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

118. Mae'r ysgol yn gymuned hapus ag iddi awyrgylch ddymunol. Mabwysiadwyd ystod o bolisïau perthnasol i sicrhau bod trefniadau gofal yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae staff yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ofalgar iawn o'u disgyblion; mae'r disgyblion hwythau yn troi atynt yn hollol naturiol am gymorth.

119. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth dda gyda'r rhieni a threfnir cyfleoedd iddynt ddod i'r ysgol yn dymhorol i weld a thrafod gwaith eu plant. Yn dilyn ei benodiad, anfonodd y pennaeth holiadur i ofyn barn rhieni ar faterion yn ymwneud â'r ysgol. Derbyniodd ymateb cadarnhaol ac mae wedi gweithredu ar nifer o'r sylwadau a dderbyniodd, yn cynnwys trefnu papur newyddion i'r ysgol. Cafwyd ymateb yr un mor gadarnhaol yn yr holiaduron a'r cyfarfod rhieni cyn arolygiad.

120. Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn trosglwyddo o ysgol fabanod y pentref ac maent yn ymgartrefu'n rhwydd. Trefnir bod y disgyblion yn ymweliad â'r ysgol ymlaen llaw a cheir rhai cyfarfodydd rhwng y staff i drosglwyddo gwybodaeth. Er bod yr ysgolion wedi dechrau gweithio ar unedau pontio, nid yw'r dilyniant cwricwlaidd yn ddigon amlwg hyd yma.

121. Mabwysiadwyd cynllun Addysg Bersonol a Chymdeithasol newydd yn ddiweddar ac mae'r disgyblion yn derbyn arweiniad da yn y maes. Caiff ymdrech a llwyddiant ei gydnabod drwy sustem pwyntiau tai. Mae'r Cyngor Ysgol wedi mynegi barn ar nifer o ddatblygiadau yn ddiweddar, ond heb fod yn ddigon blaenllaw hyd yn hyn i gynnig argymhellion ei hunain.

122. Mae'r ysgol yn hybu safonau ymddygiad uchel. Mae'r disgyblion yn gwrtais tuag at y staff ac ymwelwyr ac yn gweithio ac yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Yn eithriadol, y llynedd, bu un gwaharddiad parhaol. Dilynodd yr ysgol y drefn briodol. Mae disgybl arall a gofodd ei ata; dros dro wedi cael ei ailintegreiddio'n llwyddianus i fywyd yr ysgol ac yn gwneud cynnydd.

123. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn ofalus ac yn gwneud defnydd llawn o gefnogaeth y swyddog lles addysg i ddelio â'r ychydig unigolion sy'n achos pryder. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

124. Mae gan yr ysgol drefn gyfredol o asesiadau risg i hyrwyddo diogelwch. Mae gan ddwy o'r staff gymhwyster cymorth cyntaf cyflawn. Yn ddiweddar, agorwyd siop ffrwythau i hybu diet gytbwys fel man cychwyn wrth ymuno â'r cynllun Ysgolion Iach. Mae'r ysgol yn trefnu goruchwyliaeth ofalus yn ystod cyfnodau egwyl ac wrth i'r disgyblion gyrraedd a gadael safle'r ysgol.

125. Derbyniodd yr holl athrawon hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant mewn sesiwn gwyll yn ddiweddar. Mae'r llywodraethwraig ddynodedig hefyd yn gwbl gyfarwydd â gweithdrefnau yr ysgol ac yn eu monitro.

126. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Côd Ymarfer. Mae'r cydgysylltydd yn cadw cofnodion trefnus a chyfredol o'r gwaith ac mae'n adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae hi mewn cyswllt cyson â'r aelod o'r corff llywodraethol sydd â chyfrifoldeb dros y maes.

127. Caiff anawsterau'r disgyblion eu hadnabod yn gynnar ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o wasanaeth dwy gymhorthydd i gynnig rhaglen benodol mewn sgiliau darllen a sillafu i nifer sylweddol o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda'r rhieni yng nghyswllt y ddarpariaeth hon. Sefydlwyd cydweithio effeithiol iawn hefyd gyda phobl o'r tu allan sy'n cynnig mewnbwn neu gyngor arbenigol yn y maes.

128. Mae gan yr ysgol bolisi gwrth-fwlio manwl a threfn 'bydis', lle mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn chwarae rhan weithredol yn ystod cyfnodau egwyl. Mae gan yr ysgol gynlluniau penodol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac mae'r disgyblion yn deall y drefn a'r disgwyliadau.

129. Gwnaed rhai addasiadau i'r adeilad i hwyluso'r ddarpariaeth ac i hwyluso mynediad i ddisgyblion ac ymwelwyr ag anabledd corfforol. Mae'r ysgol wedi gwneud pob dim sy'n rhesymol bosibl mewn adeilad o'r fath sydd ar sawl lefel.

130. Rhoddir sylw i faterion cydraddoldeb hiliol a'r angen i osgoi stereoteipio yng nghyd-destun pwysigrwydd parch a goddefgarwch. Trafodir y materion hyn mewn sesiynau addoli-ar-y-cyd ac mewn gwersi megis hanes ac addysg grefyddol. Mae cyfle cyfartal i bawb o fewn pob gweithgaredd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

131. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

132. Mae gan y pennaeth, sy'n newydd i'w swydd ers cwta dau dymor, weledigaeth glir am y ffordd y mae am i'w ysgol ddatblygu. Mae'n cynnig arweiniad pendant i'r staff a'r llywodraethwyr ac yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau'r gorau i'r disgyblion. Gweithiodd yn egnïol ers ei benodiad i ddarparu nifer sylweddol o bolisïau a chanllawiau sy'n rhoi cyfeiriad pendant i waith a dyheadau'r ysgol a chreu ethos ofalgar a chynhyrchiol.

133. Cefnogir ef yn effeithiol iawn gan ddirprwy sydd yn newydd i'r swydd ac i'r ysgol. Mae'n cynnig arweiniad cadarn ar faterion cwricwlaidd ynghyd â model addysgu o ansawdd uchel.

134. Rhyngddynt mae'r pennaeth a'r dirprwy wedi llwyddo i roi ar waith nifer sylweddol o welliannau. Mae rhai eisoes yn dwyn ffrwyth o ran cysoni disgwyliadau a chodi safonau. Maent hefyd, ar y cyd, yn datblygu sgiliau proffesiynol y staff yn dda, gan lwyddo i sefydlu ymdeimlad o dîm unedig a llwyddiannus.

135. Yn ystod y cyfnod diweddar mae cryn ailstrwythuro wedi bod ar ddyletswyddau'r cydlynwyr pwnc. Mae pob un wedi gwneud arfarniad o'u maes fel paratoad ar gyfer yr arolygiad, gan adnabod cryfderau a materion i'w gwella. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu ymhellach rôl y cydlynwyr o ran monitro cyflawniad disgyblion yn fwy uniongyrchol a pherthnasu eu canfyddiadau i'r cynllun datblygu ysgol.

136. Mae'r ysgol wedi llwyddo i ymateb yn dda i rai blaengareddau cenedlaethol, megis y Marc Safon. Mae bwriad pendant hefyd i ddatblygu cyfranogiad ffurfiol yr ysgol i brosiectau megis cynlluniau Ysgol Iach ac Ysgol Werdd. Mae'r ysgol yn amlwg yn rhoi sylw i lawer o'r gofynion hyn yn barod o fewn ei chwricwlwm.

137. Mae'r ysgol yn llunio targedau blynyddol ar gyfer gwella perfformiad a phresenoldeb ac yn llwyddo i ymgyrraedd atynt drwy ymyrraeth fwriadus. Fodd bynnag, nid yw'r drefn o bennu targedau a dadansoddi canlyniadau yn ddigon cynhwysfawr ar hyn o bryd.

138. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol parthed lleihau llwyth gwaith yr athrawon ac ailfodelu'r gweithlu. Mae'r trefniadau'n effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

139. Mae trefniadau rheoli perfformiad addas yn cael eu gweithredu. Darperir ystod o hyfforddiant priodol i'r staff ac y mae'r rhain yn cael eu perthnasu'n dda i'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn arfarnu'n dda ddylanwad yr hyfforddiant hwn ar y ddarpariaeth.

140. Dros y misoedd diwethaf, y mae rôl y llywodraethwyr wedi datblygu'n arwyddocaol o dan arweiniad y tîm rheoli newydd. Mae eu dealltwriaeth o waith a gweithdrefnau'r ysgol bellach yn amlwg ac maent yn ymfalchïo yn y cyfraniad pwysig a gwerthfawr sydd ganddynt i ddatblygiad strategol yr ysgol. Maent wedi dechrau ymgymryd â'r gwaith o fonitro ansawdd y ddarpariaeth.

141. Mae'r corff llywodraethol yn bodloni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt. Y mae nifer o'r aelodau yn cyfrannu hefyd i waith yr ysgol yn ôl eu harbenigeddau.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso rhai diffygion

142. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Ym marn y tîm arolygu, er bod elfennau da i'r gwaith arfarnu, nid yw wedi bod yn ddigon cynhwysfawr nac wedi arwain at welliannau digon amlwg hyd yma i ddyfarnu Gradd 2 iddo.

143. Mae'r tîm rheoli newydd wedi sefydlu diwylliant cadarn o hunan arfarnu. Mae'r ffaith bod y tîm arolygu yn cytuno â hunan arfarniad yr ysgol ar chwech o'r saith cwestiwn allweddol yn ategu hyn. Fodd bynnag,nid yw'r hunan arfarnu hwn ym mhob achos, wedi ei seilio'n ddigonol ar ystyriaeth lawn a chadarn o'r holl dystiolaeth uniongyrchol, megis data cyfredol.

144. Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio amrywiol strategaethau o fewn y drefn hunan arfarnu sy'n cynnwys, edrych ar waith disgyblion, trafod gydag ymgynghorwyr a thrafodaethau ymhlith staff. Mewn rhai meysydd, mae hyn wedi arwain at gynnydd amlwg, ond yn gyffredinol, nid yw'r monitro wedi canolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd y ddarpariaeth nac ar yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella safonau.

145. Noda bwriadau'r ysgol ar gyfer datblygu rôl cydlynwyr y bydd disgwyl iddynt adrodd yn rheolaidd i'r corff llywodraethol. Hyd yma, dim ond aelodau'r tîm rheoli sydd wedi bod yn gwneud hyn.

146. Mae rhai o aelodau'r corff llywodraethol wedi bod yn yr ysgol yn arsylwi gwersi a thrwy adrodd yn ôl maent wedi gwneud eraill yn ymwybodol o ansawdd y gwersi ac o ethos y dosbarthiadau. Mae aelodau unigol sydd â chyfrifoldebu dynodedig hefyd wedi bod yn trafod eu meysydd gyda'r staff perthnasol ac mae'r corff llawn yn ymwybodol iawn o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol yn y meysydd hyn. Mae'r wybodaeth hon wedi galluogi'r llywodraethwyr i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol, megis yn y maes cyllidol. Mae hyn yn ddatblygiad da.

147. Bu'r tîm rheoli newydd yn canfod, drwy holiadur, farn rhieni a disgyblion am waith yr ysgol. Cafwyd ymateb cadarnhaol ac mae'r ysgol wedi ymateb i rai o'r sylwadau er hyrwyddo gwelliant. Dywed rhieni bod yr ysgol wedi rhoi sylw i faterion a godwyd ganddynt. Hyd yma, nid yw'r Cyngor Ysgol wedi chwarae rhan amlwg mewn cyflwyno barn disgyblion.

148. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gyflwynwyd gan yr ysgol yn ddogfen gynhwysfawr iawn. Mae'r hunan arfarnu yn adnabod cryfderau, yn mynegi barn ac yn nodi rhai materion sydd angen eu gwella o dan bob cwestiwn allweddol. Nodir ffynhonnell y dystiolaeth sy'n cefnogi'r farn a fynegir. Prif ddiffyg y ddogfen yw nad yw'n blaenoriaethu'r materion sydd angen eu gwella. Mae'r hunan arfarnu hefyd yn ddisgrifiadol ar brydiau ac nid yw'n rhoi digon o sylw i effaith gweithgareddau ar safonau.

149. Lluniodd y pennaeth gynllun datblygu ysgol cynhwysfawr ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'n arenwi nifer sylweddol o agweddau i dderbyn sylw yn ogystal â'r deilliannau a ddeisyfir ac yn gosod cyfeiriad pendant ar gyfer gwelliant. Mae gan y staff i gyd rôl i'w chwarae yng ngweithrediad y cynllun, a chlustnodir adnoddau sylweddol ar gyfer cefnogi'r datblygiadau arfaethedig; mae nifer eisoes wedi eu cyflawni. Nid yw pob elfen o'r cynllun datblygu ysgol, fodd bynnag, yn ddigon cydlynys ac nid yw'n blaenoriaethu'r anghenion yn ddigonol er mwyn sicrhau mai'r materion pwysicaf sy'n derbyn sylw gyntaf.

150. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn y cynnydd a wnaed ers yr arolygiad diwethaf. Mae cynnydd amlwg mewn rhai agweddau, megis codi safonau mewn daearyddiaeth a thechnoleg gwybodaeth, ond deil materion eraill i fod angen sylw pellach, megis asesu a hunanarfarnu.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

151. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

152. Mae lefel staffio digonol o fewn yr ysgol ac mae gan yr athrawon gymwysterau addas. Mae'r staff addysgu yn rhannu eu harbenigedd ar draws yr ysgol ac yn manteisio'n dda ar gyfleodd hyfforddiant mewn swydd (HMS) ac ymweliadau ymgynghorwyr neu swyddogion addysg yn ôl y galw i uwchraddio eu gwybodaeth neu sgiliau.

153. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o athrawes sy'n gweithio gyda disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol i ddarparu cymorth o ansawdd uchel a chyfnodau digyswllt i'r athrawon. Derbynia'r holl athrawon yr amser dyledus digyswllt a gwnânt ddefnydd effeithiol ohono. Bu i'r ysgol ailstrwythuro'r gweithlu'n llwyddiannus yn unol â'r gofynion. Cydymffurfir â'r gofynion i arfarnu perfformiad y staff yn flynyddol.

154. Defnyddia'r ysgol ei staff atodol yn dda a chyflawna'r staff atodol eu dyletswyddau'n effeithiol.

155. Gwna'r ysgol ddefnydd da o sefydliadau hyfforddi athrawon ac o unigolion ar brofiad gwaith.

156. Mae gan yr ysgol adnoddau dysgu digonol ar gyfer pob pwnc; mae pryniant adnoddau yn seiliedig ar ofynion y Cynllun Datblygu Ysgol. Bu buddsoddi trwm mewn offer TGCh ar gyfer y disgyblion a'r staff. Mae bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob ystafell dosbarth a chaiff y rhain eu defnyddio'n dda iawn gan y disgyblion yn ogystal â'r staff. Mae ansawdd adnoddau'r ysgol yn dda a gwelwyd enghreifftiau cyson o athrawon yn cydweithio a rhannu adnoddau. Mae digon o offer creadigol ac ymarferol ar gael. Mae'r holl offer yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r cwricwlwm ac at wella ansawdd yr addysgu a dysgu.

157. Er ei fod yn hen, mae'r adeilad yn eang ac mewn cyflwr da heblaw am y toiledau sydd islaw disgwyliadau cyfredol. Mae nifer fawr o'r ystafelloedd dosbarth o faentioli da iawn; mae gan yr ysgol neuadd eang sy'n dal yr holl disgyblion ar gyfer addoliadau ar y cyd ac ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Yn ogystal, mae ffreutur ar wahân ar gyfer pryd amser cinio. Mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad.

158. Mae'r arddangosfeydd ar furiau'r ystafelloedd dosbarth ac yn y cynteddau yn ddeniadol, yn creu ethos symbylus a bywiog ac yn dathlu llwyddiant y disgyblion. Mae safon glanweithdra'r holl ystafelloedd yn hynod o dda.

159. Mae prysurdeb mawr ar y ffordd fawr o flaen yr ysgol ar ddiwedd a dechrau'r diwrnod ysgol wrth i rieni ddanfon a nôl eu plant. Mae'r ysgol wedi mynegi pryderon am hyn ond mae goruchwyliaeth ofalus ar y disgyblion wrth iddynt gyrraedd a gadael safle'r ysgol. Caiff drysau'r ysgol eu cloi yn ystod y dydd er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion ac i'w diogelu rhag trafnidiaeth y ffordd fawr neu ymwelydd annisgwyl.

160. Mae'r iard a'r meysydd chwarae yn eang ac yn adnodd gwerthfawr ar gyfer hybu lles corfforol y disgyblion.

161. Mae'r ysgol wedi gwneud addasiadau rhesymol i'r adeilad ar gyfer disgyblion ac oedolion sydd ag anabledd.

162. Mae'r ysgol yn defnyddio ei holl adnoddau-dynol, adeiladau a defnyddiau dysgu, yn effeithiol ac effeithlon. Mae'r staff addysgu a chefnogi yn cael eu lleoli, eu rheoli a'u datblygu'n effeithiol.

163. Mae'r pennaeth, mewn cydweithrediad â'r corff llywodraethol, yn rheoli'r cyllid yn dda. Cronnwyd swm sylweddol wrth gefn dros y blynyddoedd ond mae'r corff llywodraethol wedi gwario llawer ohono'n ofalus i wella adnoddau a'r adeilad ac i sicrhau lefel staffio digonol. Maent yn ymwybodol y bydd niferoedd y disgyblion yn debygol o leihau yn y blynyddoedd i ddod ac maent wedi modelu cynlluniau gwahanol ar gyfer y dyfodol. Amcangyfrifir y bydd tau 5% o'r cyllid wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio ag argymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Awdit.

164. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian trwy:

- gefnogi disgyblion i gyrraedd safonau da;
- ddarparu gofal a chefnogaeth dda iawn i ddisgyblion;
- benderfyniadau ariannol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau addysgol;
- gynnig cwricwlwm o ansawdd da ar gyfer y disgyblion.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Saesneg

Cyfnod Allweddol 2 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

165. Drwy gydol y cyfnod allweddol, mae disgyblion o bob gallu yn gwrando ac yn ymateb yn dda iawn ar lafar.

166. Trafoda bron bob un o'r disgyblion ei syniadau a'i hoffterau a'i gasbethau'n aeddfed ac mae datblygiad amlwg yn eu geirfa, eu hymadroddion a'u cystrawennau wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn B5 a B6, gall bron bob un o'r disgyblion ar draws yr ystod gallu ymateb yn ddeallus a chynnig sylwadau estynedig a digymell mewn iaith safonol ac mewn cywair priodol wrth siarad ag ymwelwyr.

167. Mae safonau darllen ar goedd bron bob disgybl yn dda. Mae'r holl ddisgyblion yn darllen amrediad eang o lyfrau, gan gynnwys ffuglen a llyfrau ffeithiol. Amlyga'r holl ddisgyblion, yn fechgyn a merched, ddiddordeb a dyfalbarhad mewn ddarllen. Gall y rhan fwyaf drafod cymeriadau a mynegi barn synhwyrol am y llyfrau a ddarllenant. Gwna'r holl ddisgyblion ddefnydd da iawn o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau a ffynonellau eraill. Mae eu hymateb llafar ac ysgrifenedig i destunau yn dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys ac o'r technegau llenyddol a ddefnyddia'r awduron.

168. Mae'r disgyblion, yn fechgyn ac yn ferched ar draws yr ystod gallu, yn cynhyrchu amrediad eang ac amrywiol iawn o waith ysgrifenedig i wahanol bwrpasau drwy gydol y cyfnod allweddol. Maent yn drafftio ac yn ail-ddrafftio'n llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae eu medrau atalnodi a pharagraffu yn dda a llwydda mwyafrif helaeth y disgyblion i amrywio eu brawddegau i greu gwahanol effeithiau. Erbyn B5 a B6, cyfansoddant storïau a phortreadau sydd, gan amlaf, yn ddifyr. Cyfansoddant lythyrau, sgriptiau a cherddi diddorol. Bron yn ddi-feth, mae eu gwaith yn estynedig ac wedi ei strwythuro'n ofalus. Defnyddia disgyblion B5 a B6, yn arbennig, iaith gyfoethog a geirfa eang mewn cywair priodol.

169. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae safon llawysgrifen, atalnodi a pharagraffu yn dda.

Diffygion

170. Mae mân wallau sillafu a llawysgrif aneglur i'w gweld yng ngwaith nifer fach o ddisgyblion yn B3.

Cymraeg ail iaith

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

171. Mae disgyblion ar draws yr ysgol bron yn ddieithriad yn gwrando'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau neu geisiadau yn y Gymraeg o du'r athrawon.

172. O fewn strwythur y sesiynau 'helpwr y dydd', mae'r holl ddisgyblion yn defnyddio'n gywir ystod o frawddegau cyfarwydd i ofyn neu ateb cwestiynau. Yn y sefyllfaoedd hyn mae ynganu'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda.

173. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cofio'n dda gynnwys llyfrau a storïau Cymraeg sydd wedi eu darllen iddynt.

174. Yn ystod y gwersi Cymraeg mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu darllen yn gywir a chydag ynganiad da frawddegau a thestunau syml sydd wedi eu darparu ar eu cyfer. Mae'r disgyblion ieuengaf yn frwdfrydig wrth geisio darllen dyfyniadau o lyfrau cyfarwydd sy'n sail i weithgareddau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, megis gwaith cyfannu a chwblhau brawddegau; maent yn llwyddo'n dda yn y tasgau hyn.

175. Mewn parau, mae'r disgyblion yn gallu parodïo'n dda ddeialog syml drwy gyfnewid rhai geiriau ac ymadroddion. Maent yn gallu cyflwyno eu gwaith i weddill y dosbarth gyda mynegiant priodol.

176. Mae rhai unigolion yn gallu ysgrifennu darnau byrion o natur mwy creadigol, yn aml yn seiliedig ar waith testun. Defnyddiant rai ansoddeiriau a chymariaethau, maent yn amrywio peth ar y gystrawen ac yn defnyddio'r ferf gryno. Yn y darnau hyn, mae sillafu ac atalnodi'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gywir.

Diffygion

177. Y tu allan i gyd-destunau strwythuredig, mae mwyafrif sylweddol o'r disgyblion yn ei chael yn anodd i ymateb a chyfrannu ar lafar yn y Gymraeg. Nid ydynt yn llwyddo i gymhwyso patrwm brawddegol a geirfa a ddysgwyd mewn un sefyllfa i sefyllfa arall.

178. Nid yw sgiliau darllen annibynnol y disgyblion wedi datblygu'n ddigonol ar draws yr ystod oedran. Nid ydynt yn rhoi sylw i gywirdeb eu darllen nac yn defnyddio'r cyd-destun yn ddigonol i'w cynorthwyo i ganfod ystyr.

Mathemateg

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

179. Mae carfan sylweddol o'r disgyblion hynaf yn defnyddio a chymhwyso amrywiol strategaethau rhif i ddatrys problemau. Defnyddiant ddull papur a phensel a chyfrifo yn y pen mewn modd effeithiol. Gallant egluro eu dulliau o ganfod atebion yn dda iawn.

180. Erbyn B4, mae gan y disgyblion wybodaeth gadarn iawn o waith siâp. Maent yn gallu adnabod ac enwi'r siapiau, gan ddisgrifio eu priodweddau a'u grwpio yn ôl amrywiol feini prawf.

181. Mae dealltwriaeth y disgyblion o werth lle yn gadarn ar draws yr ystod oedran. Mae rhai disgyblion B3 yn gallu trafod rhifau negyddol, gan sôn am eu defnydd mewn sawl cyd-destun bob dydd.

182. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn B3 a B4 yn gallu darllen a chofnodi amseroedd ar gloc analog a digidol. Erbyn y blynyddoedd canlynol, maent yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amser i ddatrys problemau perthnasol.

183. Mae'r disgyblion ar draws yr ystod oedran yn defnyddio amrywiol ddulliau i ganfod atebion i symiau yn y pedwar gweithrediad. Mae canran uchel o'r atebion yn gywir a'r gwaith yn cael ei osod allan yn drefnus. Mae'r disgyblion yn datblygu yn eu gallu i wirio'r atebion hyn.

184. Mae dealltwriaeth y disgyblion o ffracsiynau, canrannau a degolion yn dda. Mae'r disgyblion hynaf yn gallu trosi o un i'r llall a gall y disgyblion ieuengaf gymhwyso eu dealltwriaeth o ffracsiynau i sefyllfaoedd bob dydd.

185. Erbyn B5 a B6, mae'r disgyblion yn defnyddio a dehongli data o graffiau a thablau yn dda. Mae eu gallu i lunio graffiau yn datblygu.

186. Mae dealltwriaeth y disgyblion o gyfesurynnau yn datblygu'n dda ar draws yr ystod oedran. Erbyn y blynyddoedd hynaf, maent yn gallu plotio a darllen cyfesurynnau yn y pedwar cwadrant.

187. Mae dealltwriaeth y disgyblion o unedau mesur yn dda. Mae'r disgyblion hynaf yn gallu canfod perimedr ac arwynebedd amrywiol siapiau yn gywir.

188. Defnyddia'r disgyblion gwanaf adnoddau, megis y sgŵar 100, yn effeithiol i ganfod atebion ac mae eu strategaethau a'u sgiliau yn dangos cynnydd amlwg.

189. Mae gallu'r disgyblion i ddefnyddio geirfa fathemategol gynyddol wrth sôn am eu gwaith yn datblygu'n dda.

Diffygion

190. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn B3 sy'n llai sicr o waith rhif, yn arbennig y tablau lluosi a gwaith yn ymwneud ag arian.

Technoleg Gwybodaeth

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

191. Gwna 'r rhan fwyaf o'r disgyblion ddefnydd da o'r we i gywain a threfnu gwybodaeth mewn amryw o brosiectau a phynciau ar draws y cwricwlwm yn enwedig daearyddiaeth, hanes a gwyddoniaeth.

192. Gall bron bob un dorri a gludo o'r we yn hyderus er mwyn gwneud dogfennau a chyflwyniadau amlgyfrwng i amrywiaeth o bwrpasau a chynulleidfaoedd. Mae 'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio camera digidol neu recordiadau sain yn effeithiol er mwyn cynnwys elfennau amlgyfrwng yn eu gwaith

193. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion B3 a B4 yn gwybod bod angen addasu cynnwys eu dogfennau a'u cyflwyniadau ar gyfer cynulleidfa ac erbyn B5 a B6 mae nifer dda o'r disgyblion yn gwneud hynny'n llwyddiannus. Mae rhai cyflwyniadau gan grŵp bach o ddisgyblion B6 yn dangos lefel uchel iawn o sgiliau ac o ddealltwriaeth o'r angen i baratoi ar gyfer cynulleidfa.

194. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B3 a B4 yn gallu gyrru e-byst ac erbyn B5 a B6 gallant atodi dogfenni iddynt yn llwyddiannus.

195. Mae disgyblion B3 a B4 yn gallu defnyddio rhaglenni efelychiadol yn fwyfwy hyderus. Erbyn B5 a B6, datblyga'r disgyblion eu sgiliau ymhellach a gallant ragfynegi sut buasai amrywio'r newidynnau yn effeithio ar y siapiau a grëwyd gyda'r crwban sgrin.

196. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B5 a B6 yn gallu dethol a chasglu gwybodaeth briodol a'i fwydo i raglenni graffio ac i gronfa ddata gan eu defnyddio'n llwyddiannus i gofnodi data ac i gynhyrchu amrywiaeth priodol o graffiau.

197. Mae gan nifer dda o ddisgyblion B6 syniad da o fanteision ac anfanteision a ddaw wrth ddefnyddio cyfrifiaduron yn y gymdeithas.

Diffygion

198. Nid oes diffygion pwysig.

Daearyddiaeth

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

199. Mae'r disgyblion ar draws yr ystod oedran yn gallu egluro sut mae dyn yn dylanwadu ar yr amgylchedd. Gallant egluro mewn manylder beth ydy'r gwahanol fathau o lygredd a beth sy'n eu hachosi.

200. Mae'r disgyblion yn gallu egluro beth a olygir wrth effaith tŷ gwydr a'r modd y mae'n effeithio ar hinsawdd y ddaear. Mae'r disgyblion yn B3 a B4 yn gallu perthnasu hyn i'r bygythiad i rai rhywiogaethau ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

201. Gall disgyblion o bob oed egluro'n dda y gwahaniaeth rhwng nodweddion dynol a naturiol yn yr amgylchedd. Defnyddia'r disgyblion hynaf TGCh yn dda i ganfod, cofnodi a chymharu y nodweddion hyn ym Maseru, Lesotho a Chaerdydd.

202. Mae sgiliau mapio'r disgyblion yn datblygu'n dda. Gall disgyblion B3 a B4 lunio mapiau syml i gofnodi defnydd tir a'u hesbonio dda drwy gyfeirio at yr allwedd. Mae'r disgyblion hynaf yn gallu darllen mapiau ordinans gan egluro'r symbolau safonol a defnyddio cyfeirnodau pedwar a chwe digid yn ogystal ag wyth pwynt y cwmpawd. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am wahanol wledydd a chyfandiroedd.

203. Wrth drafod datblygiadau posibl, mae'r disgyblion yn ystyried gwahanol safbwyntiau a mynegi barn. Gallant restru manteision ac anfanteision datblygiadau i'r gymdogaeth, yn cynnwys effeithiau dros dro a pharhaol ar yr amgylchedd.

204. Defnyddia'r disgyblion eirfa ddaearyddol yn dda. Maent yn cywain gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan arsylwi'n dda. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar.

Diffygion

205. Nid yw ansawdd y gwaith, o ran cofnodi syniadau a gofyn cwestiynau am nodweddion a materion daearyddol, bob amser yn gyson ar draws grwpiau dysgu cyfatebol.

206. Mae carfan fechan o ddisgyblion ym mhen isaf yr ysgol yn cael anhawster deall y cysyniadau a gyflwynir iddynt ac o ganlyniad mae eu gwaith cofnodi yn aneglur.

Addysg grefyddol

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

207. Mae'r holl ddisgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd diogelu'r amgylchfyd.

208. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd teuluoedd, cymunedau, cartrefi ac adeiladau.

209. Mae dealltwriaeth y disgyblion o egwyddorion cymdeithasol a moesol, megis cyfeillgarwch a gofal am eraill, yn dda iawn.

210. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod hanesion cyfarwydd o'r Beibl ac yn gallu egluro eu harwyddocâd crefyddol.

211. Gall mwyafrif y disgyblion gysylltu nifer dda o brif ddigwyddiadau yn y Testament Newydd â llawer o wyliau Cristnogol. Deallant arwyddocâd addoli ac maent yn gyfarwydd â nodweddion mathau gwahanol o addoldai.

212. Mae'r holl ddisgyblion yn ymwybodol bod crefyddau eraill heblaw Cristnogaeth. Mae nifer fawr o'r disgyblion yn gyfarwydd â nodweddion crefyddau eraill, megis Islam ac Iddewiaeth, a thrwy ymchwil bersonol gallant eu cymharu'n fanwl. Mae'r holl ddisgyblion yn magu parch at draddodiadau crefyddol sy'n gwahanol i'w traddodiad hwy eu hunain.

213. Mae ymateb y disgyblion, yn enwedig disgyblion B6, i 'gwestiynau mawr' crefyddol yn dda.

Diffygion

214. Nid yw ychydig o'r disgyblion yn gallu adalw ffeithiau neu gysyniadau crefyddol heb gymorth.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae staff a Llywodraethwyr Ysgol Pant y Rhedyn yn diolch i'r tîm arolygu am eu gwaith trwyadl a chydwybodol. Roedd y tîm bob amser yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth iddynt ymwneud â'u gwaith.

Croesawn ddarganfyddiadau'r tîm. Credwn fod eu sylwadau yn adlewyrchiad teg o waith yr ysgol. Mae'r sylwadau positif yn yr adroddiad yn destun balchder i holl gymuned yr ysgol ac maent yn arwydd o'r gwaith caled sydd yn digwydd o ddydd i ddydd yn ein hysgol.

Gwerthfawrogodd y pennaeth y cyfle i gael bod yn enwebai a chael gweld sut y mae arolygwyr yn mynd ati i ddod i benderfyniadau. Roedd y trafodaethau rhwng yr ysgol a'r tîm yn rhai adeiladol ac mi fyddant yn rhoi sylfaen pendant i ni symud yr ysgol ymlaen, gan godi safonau'r ysgol yn bellach.

Teimlwn fod yr arolygiad wedi bod yn un adeiladol a chadarnhaol a bydd y corff llywodraethu yn defnyddio'r adroddiad fel arf i lunio cynllun gweithredu wrth ymateb i'r argymhellion. Bydd yr ysgol yn anfon copi i bob rhiant ac mi fydd adroddiad blynyddol y corff yn adrodd ar y cynnydd sydd yn cael ei wneud.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Pant y Rhedyn
Math o ysgol	Cymunedol
Ystod oedran y disgyblion	7-11
Cyfeiriad yr ysgol	Ffordd Penmaenmawr, Llanfairfechan, Conwy
Cod post	LL33 0PA
Rhif ffôn	01248 680642

Pennaeth	Mr Matthew Jones
Dyddiad penodi	1af o Fedi 2007
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Y Cynghorydd Andrew Hinchliff
Arolygydd cofrestredig	Gareth Wyn Roberts
Dyddiadau'r arolygiad	03/03/2008-05/03/2008

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	0	0	0	0	29	37	33	33	132

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	7	1	7.7

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	1:17.1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	-
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	22
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.3:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad	
Tymor	CA2 = Yr ysgol
Gwanwyn 07	94.5
Haf 07	94.3
Hydref 07	93.8

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	12
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	2 (1 yn barhaol 1, dros dro - dim un o gefndir ethnig)

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007			Nifer y disgyblion yn B6							39	
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	15	44	41
		Cenedlaethol	0	0	0	1	1	4	16	48	30
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	65	35	0
		Cenedlaethol	1	0	0	1	1	4	18	50	25
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	13	43.5	43.5
		Cenedlaethol	0	0	0	1	1	3	14	48	33
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	10	56	33
		Cenedlaethol	0	0	0	1	0	2	12	52	34

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl asesiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	82.05	Yn yr ysgol	amherthnasol
Yng Nghymru	74.2	Yng Nghymru	amherthnasol

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygwyd yr ysgol gan dîm o dri arolygydd a oedd yn bresennol am saith diwrnod arolygu.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda'r staff, rhieni a'r corff llywodraethol.
- Mynychodd 12 o rieni y cyfarfod cyn-arolygiad, dadansoddwyd 34 o holiaduron a gwblhawyd ganddynt a derbyniwyd wyth llythyr neu nodyn.
- Dadansoddwyd y dogfennau a gyflwynwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad.
- Archwiliwyd sampl o waith disgyblion ym mhob dosbarth, gwrandawyd arnynt yn darllen yn y ddwy iaith a chafwyd trafodaeth am eu gwaith ac am fywyd yr ysgol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth, y staff dysgu a'r staff cefnogi.
- Arsylwyd 26 o wersi neu rannau o ohonynt gan gynnwys 19 gwers yn y pynciau a arolygwyd yn benodol.
- Arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod amseroedd egwyl, yr awr ginio ac ar ddechrau a diwedd y cyfnodau ysgol.
- Mynychodd yr arolygwyr addoliadau ar y cyd ac arsylwyd gweithgareddau allgyrsiol.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Gareth Wyn Roberts (Arolygwr Cofrestredig)	Cefndir yr ysgol, crynodeb, Cwestiwn Allweddol 1, 2 a 3 Saesneg, technoleg gwybodaeth, addysg grefyddol, Atodiad yr arolygiad
Mr Wil Owen (Arolygwr Lleyg)	Cwestiwn Allweddol 7
Mr Rolant Wynne (Arolygwr Tîm)	Cwestiwn Allweddol 4, 5, 6 Cymraeg Ail Iaith, mathemateg, daearyddiaeth
Mr Matthew Jones (Enwebai'r ysgol)	

Nid oedd asesydd cymheiriad yn aelod o'r tîm arolygu.

Contractwr: Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad parod yn ystod yr arolygiad.